
# Caniatâd Cynllunio a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru

## A oes gennych gais cynllunio sydd ger y môr? Neu gais a allai effeithio ar y môr neu'r arfordir?

Os oes posibilrwydd y gallai'ch datblygiad effeithio ar arfordir neu fôr Cymru, yn ogystal ag ystyried polisi cynllunio tir, bydd gofyn ichi ystyried y polisïau yn y cynllun morol a chydymffurfio â'r rhai perthnasol. Cafodd Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru (CMCC) ei fabwysiadu ym mis Tachwedd 2019. Mae'n disgrifio gweledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal forol Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ac mae ynddo bolisïau i wireddu'r weledigaeth honno.



### ARDAL CYNLLUN MOROL CENEDLAETHOL CYMRU




Mae'r CMCC a'i bolisïau'n berthnasol i bob penderfyniad allai effeithio ar ardal y cynllun morol.

Ffin ardal y cynllun morol yw penllanw cymedrig y gorllanw sy'n estyn ymhell i fyny afonydd o'r arfordir. Mae gweithgareddau a datblygiadau ger yr arfordir ac ymhellach i'r tir, yn gallu effeithio ar amgylchedd y môr a gallai'r môr effeithio arnynt hwythau.

Efallai y gall CMCC felly fod yn berthnasol i geisiadau ar y tir a, lle bo'n berthnasol, bydd gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried polisïau cynllunio morol wrth wneud penderfyniadau.

Mae polisïau CMCC yn ymdrin ag ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, llywodraethu, gwyddoniaeth a gweithgareddau a diwydiannau morol gwahanol.

Ni fydd rhai ohonyn nhw, fel polisïau pysgota a strwythurau yn y môr, yn berthnasol i weithgareddau ar y tir.

Y polisïau sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i gynigion ar y tir yw:

- y rheini sy'n ymwneud â'r arfordir, fel polisïau rheoli newid ar yr arfordir a llifogydd neu fynediad i amgylchedd y môr,
- y rheini sy'n ymwneud â gweithgareddau ar y tir neu afonydd a allai gael effaith uniongyrchol ar y môr, trwy sbwriel, llygredd neu ostwng ansawdd dŵr.

Gan ddibynnu ar natur eich datblygiad, gallai polisïau eraill fod yn berthnasol hefyd. Dylech drafod hyn â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol.

### Polisïau cynllunio morol allai fod yn berthnasol:

SOC_01: Mynediad i'r amgylchedd morol

SOC_03: Achosion o lygredd môr


SOC_08: Gwrthsefyll newidiadau i'r arfordir a llifogydd

SOC_09: Effeithiau ar newidiadau i'r arfordir ac ar lifogydd

ENV_04: Sbwriel môr

ENV_06: Ansawdd yr aer a dŵr.

### PENLLANW CYMEDRIG Y GORLLANW




Bydd faint o sylw y bydd gofyn ichi ei roi i bolisi cynllunio morol yn dibynnu ar faint o effaith y bydd eich datblygiad yn debygol o'i chael ar ardal y môr.

Yn achos prosiectau llai a/neu'r rheini sy'n bell o'r arfordir, mae'n debygol y bydd y polisi cynllunio morol yn llai perthnasol neu na fydd angen ei ystyried mor fanwl.

### Polisi GEN_02

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol ymdrin â pholisïau cynllunio morol perthnasol mewn ffordd gymesur, seiliedig ar risg wrth wneud penderfyniadau.

Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymhwyso polisïau cynllunio morol mewn ffordd gymesur wrth ystyried ceisiadau ac wrth ystyried a oes angen cyflwyno tystiolaeth.

Gwneir hynny trwy asesu natur, maint a lleoliad y cynnig a pha mor aml y bydd yn digwydd.

Os hoffech ragor o wybodaeth am gynllunio morol yng Nghymru, ewch i: https://llyw.cymru/cynllunio-morol

Os oes gennych gwestiynau sut y gallai Cynllunio Morol ac CMCC effeithio arnoch chi neu'ch datblygiad, holwch eich Awdurdod Cynllunio Lleol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG41671